*Statws This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1086

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

## RHAN 1

Cyffredinol

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 a daw'r Rheoliadau hyn i rym —

(a) at ddibenion —

(i) y rheoliad hwn;

(ii) rheoliad 2;

(iii) Rhan 6;

(iv) paragraffau (1), (5) i (8), (10) i (13), (15), (18), (19) a (21) i (23) o reoliad 40;

(v) paragraffau (1), (5), (6) (7) ac (11) i (13) o reoliad 41; a

(vi) rheoliad 43,

ar 1 Mehefin 2007; a

(b) at bob diben arall, ar y diwrnod sydd bedwar mis ar ôl y diwrnod y mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan y Panel, yn unol â rheoliad 39(1), yn dod i law Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â rheoliad 34.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn —

ystyr "adroddiad atodol" ("*supplementary report*") yw adroddiad a gynhyrchir gan y Panel yn unol â rheoliad 36 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "adroddiad blynyddol" ("*annual report*") yw adroddiad a gynhyrchir gan y Panel yn unol â rheoliad 35 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "adroddiad cychwynnol" ("*initial report*") yw'r adroddiad a gynhyrchir gan y Panel yn unol â rheoliad 34;

mae "aelod" ("*member*") yn cynnwys, mewn perthynas â Rhannau 2 i 5 o'r Rheoliadau hyn ac oni fynegir yn benodol fel arall, aelod cyfetholedig, aelod o bwyllgor neu aelod o is-bwyllgor;

ystyr "aelod cyfetholedig" ("*co-opted member*") o ran awdurdod yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond —

(a) sy'n aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu o is-bwyllgorau'r awdurdod; neu

(b) sy'n aelod o unrhyw un o gyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno,

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol" ("*National Park Authority*") yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**1**);

ystyr "awdurdod tân ac achub" ("*fire and rescue authority*") yw awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu drwy gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno'n gymwys iddo(**2**);

ystyr "blwyddyn" ("*year*") —

(a) at ddibenion rheoliad 28(2), yw cyfnod o ddeuddeng mis;

(b) at ddibenion rheoliad 29(1), yw unrhyw gyfnod o ddeuddeng mis yn dod i ben ar 31 Rhagfyr; ac

(c) at bob diben arall —

(i) yw'r cyfnod sy'n dechrau ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn unol â rheoliad 1(1)(b) ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2009; a

(ii) yw unrhyw gyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth ar ôl hynny;

ystyr "bwrdd" ("*board*") yw pwyllgor awdurdod a sefydlwyd o dan rheoliad 4 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007(**3**);

ystyr "cynllun" ("*scheme*") yw cynllun talu lwfansau a wnaed yn unol â Rhannau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**4**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "dyletswydd a gymeradwywyd" ("*approved duty*") yw —

(a) presenoldeb mewn un o gyfarfodydd yr awdurdod neu o bwyllgorau'r awdurdod neu un o gyfarfodydd unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu un o gyfarfodydd unrhyw un o bwyllgorau corff o'r fath;

(b) presenoldeb mewn un o gyfarfodydd unrhyw gymdeithas awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni;

(c) presenoldeb mewn unrhyw gyfarfod arall y mae'r awdurdod neu un o bwyllgorau'r awdurdod neu un o gyd-bwyllgorau'r awdurdod ynghyd ag un awdurdod arall neu fwy yn awdurdodi ei gynnal;

(ch) dyletswydd yr ymgymerir â hi at ddiben cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni pan fydd gan yr awdurdod ar waith drefniadau gweithredol o fewn ystyr Rhan II o Ddeddf 2000;

(d) dyletswydd yr ymgymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan agorir dogfennau tendro;

(dd) dyletswydd yr ymgymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r awdurdod sy'n rhoi pŵer i'r awdurdod neu'n ei gwneud yn ofynnol iddo arolygu mangreoedd neu awdurdodi eu harolygu;

(**1**) 1995 p.25.
(**2**) 2004 p.21.
(**3**) O.S. 2007/397 (Cy.43).
(**4**) 1972 p.70.

(e) presenoldeb mewn unrhyw achlysur hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu gan weithrediaeth neu fwrdd yr awdurdod; ac

(h) unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd arall mewn dosbarth a gymeradwyir felly, a honno'n ddyletswydd yr ymgymerir â hi at ddiben cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni;

ystyr "gweithrediaeth" ("*executive*") yw gweithrediaeth awdurdod ar ffurf a bennir yn adran 11(2) i (5) o Ddeddf 2000;

mae i'r ymadrodd "lwfans aelodau cyfetholedig" ("*co-optees' allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 16 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans cyfrifoldeb arbennig" ("*special responsibility allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans gofal" ("*care allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 9 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans sylfaenol" ("*basic allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 7 o'r Rheoliadau hyn;

mae i'r ymadrodd "lwfans teithio a chynhaliaeth" ("*travelling and subsistence allowance*") yr ystyr sydd iddo yn rheoliad 15 o'r Rheoliadau hyn;

ystyr "Panel" ("*Panel*") yw'r panel a sefydlir yn unol â Rhan 6 o'r Rheoliadau hyn;

mae "pwyllgor" ("*committee*") yn cynnwys is-bwyllgor;

ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 2002(**5**);

ystyr "Rheoliadau Awdurdod Tân ac Achub" ("*Fire and Rescue Authority Regulations*") yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004(**6**);

mae i'r ymadrodd "swyddog priodol" yr ystyr sydd i "*proper officer*" yn adran 270(3) o Ddeddf 1972;

ystyr "trefniadau amgen" ("*alternative arrangements*") yw trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau awdurdod sy'n swyddogaethau o fath a ddisgrifir yn adran 32(1) o Ddeddf 2000; ac

mae i'r ymadrodd "trefniadau gweithrediaeth" yr ystyr a roddir i "*executive arrangements*" gan adran 10(1) o Ddeddf 2000.

**Awdurdodau perthnasol rhagnodedig**

**3.** Rhagnodir awdurdodau'n awdurdodau perthnasol at ddibenion adran 100(1)(b) ac (c) o Ddeddf 2000.

(**5**) O.S. 2002/1895 (Cy.196).
(**6**) O.S. 2004/2555 (Cy.227) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2929 (Cy.214).